Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 117

**Amseru:** Arferol

**Teitl: Ni fydd cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael eu gweddarlledu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Llywodraethu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn dilyn trafodaethau gyda Thîm Gweithredol SCHTh, Prif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ac Uwch Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys, mae'r CHTh wedi penderfynu peidio â pharhau i ddarlledu cyfarfodydd cyhoeddus Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fel gweddarllediad ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nododd trafodaethau yn rhwydwaith polisi Cymdeithas Prif Weithredwyr Comisiynwyr Heddlu a Throseddu bod sawl CHTh yn troi oddi wrth gweddarlledu cyfarfodydd o'r fath oherwydd y teimlad eu bod yn atal craffu cwbl effeithiol, ac o'r herwydd, ffafriwyd methodolegau eraill ar gyfer hwyluso tryloywder.

Bydd cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn y dyfodol dal yn cael eu cynnal ledled yr ardal heddlu er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd fynd iddynt ac ymgysylltu â'r CHTh a'r Prif Swyddog heb weddarlledu er mwyn annog trafodaeth agored ac onest. Er mwyn annog ymgysylltiad â'r cyhoedd, bydd sesiwn fyw 30 munud o hyd gyda'r CHTh a'r Prif Gwnstabl (PG) yn cael ei threialu ar Facebook yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ar y 7fed o Fai. Yn ystod y sesiwn hon, anogir y cyhoedd i holi cwestiynau i'r CHTh a'r PG, a fydd yn eu hateb yn ystod y darllediad. Adolygir effeithiolrwydd hyn ar ôl y sesiwn, ac ystyrir cynnal sesiynau o'r fath eto yn y dyfodol.

**Argymhelliad:**
Cadarnhau na fydd cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn cael eu darlledu fel gweddarllediadau ar wefan SCHTh yn y dyfodol ond mi fydd dulliau eraill o ymgysylltu yn cael eu defnyddio.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 3/5/2019